**Cyflwynwyd yr ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)**

**This response was submitted to the Equality and Social Justice Committee consultation on Social Partnership and Public Procurement (Wales) Bill**

**SPPP 16**

**Ymateb gan: Cyfoeth Naturiol Cymru | Response from: Natural Resources Wales**

---

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) – Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus

*Tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd fel rhan o'r ystyriaeth o egwyddorion cyffredinol y Bil / gan gynnwys barn ar gylch gorchwyl y pwyllgor.*

| **Ymateb** |
|---|
| 1. *Sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol*<br><br>Byddai CNC yn croesawu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol. Hoffem ddeall p'un a fyddent yn cyhoeddi canllawiau ac argymhellion neu'n ei wneud yn ofyniad cyfreithiol i gyflwyno mentrau. Os byddant yn ei wneud yn ofyniad cyfreithiol, byddai angen ystyried yr effaith ariannol ar sefydliadau a p'un a fyddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi hynny'n ariannol. |
| 2. *Dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus penodol i geisio cydsyniad neu gyfaddawd gyda'u hundebau llafur cydnabyddedig, (neu mewn achosion lle nad oes undebau llafur cydnabyddedig), cynrychiolwyr eraill ar gyfer eu staff, wrth osod eu hamcanion llesiant a chyflawni'r amcanion hynny*<br><br>Ni fyddai hyn yn achosi unrhyw broblemau i CNC – rydym ni eisoes yn cydweithio'n sylweddol gyda'n pum undeb llafur cydnabyddedig - GMB, PCS, Prospect, Unison ac Unite – sy'n cynrychioli eu haelodau trwy gytundeb cydfargeinio. |
| 3. *Dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i ymgynghori gyda phartneriaid cymdeithasol, cyflogwyr a chynrychiolwyr y gweithwyr drwy'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol wrth gyflawni eu hamcanion llesiant*<br><br>Dim sylwadau |
| 4. *Dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus i ystyried caffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol wrth gynnal ymarferion caffael, i osod amcanion mewn perthynas â nodau llesiant ac i gyhoeddi strategaeth caffael*<br><br>5. *Cyrff cyhoeddus penodol i ymgymryd â dyletswyddau rheoli contract i sicrhau bod deilliannau cyfrifol o safbwynt cymdeithasol yn cael eu canlyn drwy gadwyni cyflenwi* |

| |
|---|
| 6. *Dyletswyddau adrodd i gael eu rhoi ar gyrff cyhoeddus a Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol a'r Ddyletswydd Caffael*<br><br>Ymateb i 4, 5 a 6 uchod – byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Thîm Diwygio Caffael Cymru trwy nifer o wahanol fforymau a gweithgorau caffael er mwyn paratoi ar gyfer y cyfrifoldebau hyn. |
| 7. *Unrhyw rwystrau rhag gweithredu'r Bil ac a yw'r Bil yn rhoi ystyriaeth i'r rhain*<br><br>Dim rhwystrau wedi'u nodi |
| 8. *Addasrwydd pwerau'r Bil i Weinidogion Cymru allu gwneud is-ddeddfwriaeth*<br>Dim byd wedi'i nodi |
| 9. *A oes unrhyw oblygiadau anfwriadol yn codi o'r Bil*<br><br>Dim byd wedi'i nodi |
| 10. *Goblygiadau ariannol y Bil*<br><br>Mae hyn yn ddibynnol ar p'un a fydd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn rhoi cyfarwyddyd i gyrff cyhoeddus weithredu mentrau newydd neu a fydd yn cynghori fel bod rhywfaint o ryddid pryd a sut y bydd mentrau'n cael eu gweithredu. Yn yr achos cyntaf, mae'n rhaid cyfrifo costau'r goblygiadau ariannol yn llawn, a dyrannu cyllidebau'n unol â hynny. |

22 Gorffennaf 2022